Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Gwobrau Cymraeg Gwaith

Roedd cyffro yn y colegau addysg bellach yn ddiweddar wrth i ddysgwyr ar gynllun Cymraeg Gwaith dderbyn nid yn unig eu tystysgrifau am gyflawni 120 awr o Gymraeg yn ystod y cynllun ond gwobrau Cymraeg i'r Gwaith hefyd.

Dyma'r tro cyntaf eleni i'r gwobrau hyn gael eu dyfarnu a daeth saith coleg i'r brig. Roedd y tiwtoriaid iaith yn gyfrifol am enwebu dysgwyr ar gyfer y gwobrau mewn un o bum categori - y defnydd gorau, y cynnydd gorau ar lefel mynediad a sylfaen, y cynnydd gorau ar lefel ganolradd ac uwch, y tîm neu'r adran orau a Llysgennad Cymraeg i'r Gwaith. Derbyniwyd 36 o geisiadau ar gyfer y categorïau a dewiswyd enillydd ym mhob categori ynghyd â dysgwyr llwyddiannus a oedd yn ennill ail a thrydydd lle.

Work Welsh Awards

There was excitement in the colleges of further education recently as learners on the Work Welsh scheme received not only their certificates for achieving 120 hours of Welsh during the scheme but Welsh for Work awards.

This year is the first time that these awards have been awarded and seven colleges came to the top. The language tutors were responsible for nominating learners for the awards in one of five categories - best use, best progress at entry and foundation level, best progress at intermediate and advanced level, best team or department and Welsh for Work ambassador. 36 applications were received for the categories with successful learners winning in each category and also rewarding second and third place.

Yn ôl tiwtor Cymraeg Gwaith Angharad Guedes:

"Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau'n barhaus rydym wedi treulio amser ar ddechrau pob gwers ac wedi cynnal cwisiau adolygu'n rheolaidd er mwyn ail-ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd eisoes. At hynny, mae'r sesiwn 1 i 1 wythnosol wedi bod o les i ddysgwyr, gan roi cyfle iddynt ymgysylltu â'r iaith Gymraeg yn y gweithle ac wedi rhoi'r cyfle i mi deilwra gweithgareddau iaith at bob unigolyn yn ôl y gofyn er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gwblhau eu gwaith penodol."

Work Welsh Tutor Angharad Guedes:

"In order to ensure that staff are continually developing in their skills, we have spent time at the beginning of each lesson and periodically conducted revision quizzes in order to re-use what has already been learned. In addition, the weekly 1 to 1 session has benefited the staff, giving them another opportunity to connect with the Welsh language during their working week and allowing me the opportunity to tailor language activities to the individual as required, in order to encourage them to use Welsh when completing their specific work."

Enillwyr gwobrau - Darlithwyr Peirianneg Grŵp Colegau NPTC, David Richards a Steve Prosser:

"Mae'r prosiect hwn wedi rhoi'r hyder i ni ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda myfyrwyr yn ein hystafelloedd dosbarth yn rheolaidd.

Mae ein hymdrechion i fynd ati i ddefnyddio'r iaith yn fwyfwy yn amlwg wedi bod o help o ran datblygu ein sgiliau ein hunain yn y Gymraeg, ond, yn ôl pob tebyg, mae ein hymdrechion hefyd wedi annog myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ymuno'n â ni'n naturiol a defnyddio rhai o'i sgiliau iaith eu hunain – hyd yn oed os dim ond i'n cywiro ni.

Mae'r dull dibryder hwn hyn yn tueddu i annog myfyrwyr di-Gymraeg i roi cynnig ar gyfathrebu drwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn amgylchedd cyfeillgar, hamddenol ac anfeirniadol."

Award recipients -Engineering lecturers David Richards & Steve Prosser, NPTC Group of Colleges:

"This project has given us the confidence to try to use Welsh words and phrases with students in our classrooms on a regular basis.

The more we attempted to use the language obviously assists in our own Welsh-language development, however our efforts seem to encouraged Welsh-speaking students to naturally join in and use some of their own language skills – even if it is only to correct us on ours.

This easy going approach tends to encourage non-Welsh speaking students to make their own attempts to communicate using Welsh words and phrases in a friendly, relaxed and non-judgmental environment."

Cydlynydd Datblygu Dwyieithrwydd Grŵp Colegau NPTC, Angharad Morgan:

"Mae staff y Coleg wedi mwynhau'r prosiect yn fawr iawn, yn sicr mae wedi cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad personol yn yr iaith Gymraeg a'u hunanhyder. Mae'r staff sy'n rhan o'r prosiect yn defnyddio'r Gymraeg y maent wedi'i dysgu yn eu hystafelloedd dosbarth gyda'u myfyrwyr a gyda'u cydweithwyr erbyn hyn. Bu'r cwrs yn un cadarnhaol iawn i bawb dan sylw, ac rydym yn ddiolchgar i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am gefnogi prosiect mor wych."

Bilingual Development Coordinator, NPTC Group of Colleges, Angharad Morgan:

"College staff have thoroughly enjoyed the project, it has certainly had a positive impact on their Welsh language development and self-confidence. Staff on the project are now using the Welsh that they have learnt in lessons, in their classrooms with their students and with colleagues. It has been a very positive course for all involved and we are grateful to the National Centre for Learning Welsh for supporting and funding such a wonderful project."

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymrestru am gyrsiau Cymraeg Gwaith yn y dyfodol, cysylltwch ag Angharad Morgan: **angharad.morgan@nptcgroup.ac.uk**

If you are interested in enrolling on future Work Welsh courses, please contact Angharad Morgan: **angharad.morgan@nptcgroup.ac.uk**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

ColegauCymru CollegesWales